

Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 28/02/2022 7:00yh – O Bell - COVID-19

John Brinley Jones (Cad) Thomas Victor Jones Greta Hughes Alaw Ceris
Gwenllian Davenport Alan Harper-Smith Ian Goronwy Williams William Roger Jones
Hughes
Ann L Williams Pat Humphreys (Clerc)
(Cyfieithydd)

Mae'r Cyfarfod heno yn cael ei gynnal dros y we gyda meddalwedd Zoom yn unol â chyfarwyddiadau COVID-19

Gofynnodd y cadeirydd i bawb sydd eisiau cyfrannu yna iddynt roi eu llaw i fyny a pan fydd angen pleidleisio i bawb wneud drwy ddangos llaw.

1. Ymddiheuriadau

David Andrew Parry.

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

Dim.

3. Cofnodion Pwyllgor 31/01/2022

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.

Cynnig: Ian Goronwy Williams Eilio: William Roger Jones

Materion yn codi o'r cofnodion

1. Mae gweithredoedd y fynwent newydd sydd yn trosglwyddo'r enw i Cyngor Cymuned Llanbedrog wedi cael eu arwyddo gan bawb ac mae'r cadeirydd wedi eu rhoi yn ôl i'r clercc ac mae hi am fynd a nhw i swyddfa Bryn Martin.
2. Derbyniwyd copi o ymateb gan swyddog o Cyngor Gwynedd i llythyr Cyngor Tref Pwllheli ynglŷn â llifogydd ar yr A499 o Pwllheli i Llanbedrog ac oherwydd fod Cyngor Cymuned Llanbedrog wedi anfon llythyr hefyd yn sôn am yr un peth fe anfonodd ysgrifenyddes y swyddog gopi ohono i bob Cyngor Cymuned a Thref sydd wedi arwyddo llythyr Cyngor Cymuned Llanbedrog er gwybodaeth ac mae'r clercc wedi ei anfon i bob aelod. Mae'r llythyr yn egluro y bydd rhaid cael cyfarfod i drafod y mater ac am adael i ni wybod pan fydd cyfarfod wedi ei drefnu. Gofynnodd Thomas Victor Jones os yw'r Clercc wedi derbyn ebost gan Michael Sol Owen sy'n amgau dogfennau ynglŷn â'r llifogydd ond nid yw'r Clercc wedi derbyn dim ganddo felly fe addawodd gysylltu hefo fo i drafod y mater.
3. Gofynnodd y Cadeirydd os yw'r ffurflenni sydd yn galluogi Claire Russell-Griffiths i arwyddo ar gyfrifon banc Cyngor Cymuned Llanbedrog wedi eu sortio ond nid yw Claire Russell-Griffiths yn bresennol heno felly fe addawodd y clercc ofyn iddi erbyn y pwyllgor nesaf.

4. Unrhyw Fater Brys

Dim.

5. Llwybrau

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 28/02/2022 7:00yh – O Bell - COVID-19

Mainc sydd wedi cael ei llosgi ar Mynydd Tir Cwmwd

Mae'r clerc wedi edrych nôl drwy'r cofnodion o 2015 i 2019 i edrych os oedd sôn am y fainc sydd wedi cael ei llosgi a pwy oedd yn gyfrifol am ei phrynu a'i gosod ar y mynydd. Nid oedd dim am y fainc yn y cofnodion ond mae'r clerc wedi sylwi fod 2 fainc sydd wedi eu lleoli wrth y tocyn cerrig ar y mynydd ar y rhestr asedau felly tybed os yw'r fainc yma yn un o'r rheiny? Mae Greta Hughes yn meddwl fod yna 2 fainc ar ben y mynydd yn wreiddiol ond cafodd un ei malu ac felly ei symud oddi yno ac mae hi'n rhyw feddwl fod y fainc yma wedi cael ei phrynu a'i rhoi yna gan y teulu sydd ar y plac a dim y Cyngor Cymuned. Awgrymodd Greta Hughes i'r clerc gysylltu gyda'r vicer Andrew Jones i weld os ydi ef yn nabod y bobol yma ac fe addawodd wneud ac adrodd yn ôl mis nesaf. Gofynnodd William Roger Jones, os mai'r teulu sydd wedi rhoi y fainc yma yna a'i nhw sydd i fod yn gyfrifol amdani hi? Holodd Alaw Ceris o ran gosod mainc yn rhywle a oes rhaid cael caniatad a beth yw'r broses? Dywedodd Greta Hughes y byddai rhaid ystyried cael caniatad o hyn allan i leoli mainc neu unrhyw eitem arall ond gan fod y fainc yma wedi bod yno ers amser bellach yna y byddai'n iawn i'r teulu roi mainc arall yn ei lle os ydynt yn dymuo gwneud hynny a'u cyfrifoldeb nhw fydd gwneud hynny ac edrych ar ei hôl. Dywedodd Alan Harper-Smith mai tir comin yw'r mynydd ac felly nid oes gan y Cyngor Cymuned hawl i atal neb rhag rhoi dim arno ond dywedodd y Cadeirydd nad yw'r Cyngor Cymuned eisiau gweld meinciau neu unrhyw eitem arall yn cael eu lleoli ym mhob man heb ganiatad yn enwedig gan fod y mynydd o dan orfodaeth Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA/SSSI). Dywedodd Greta Hughes hefyd fod yna wahanol dir feddianwyr ar y mynydd ond fe basiwyd yn y saithdegau nad oedd i'w ddefnyddio dim ond fel tir comin ac ategodd Thomas Victor Jones eu bod wedi mynd i gyfraith i basio hyn.

Lleoli mainc newydd sydd gan y Cynghorydd Angel Russell

Ni does dim gwybodaeth wedi ei gael ynglŷn â'r fainc yma felly penerfynwyd ei rhoi ar agenda mis nesaf.

Llwybr Tân ar Mynydd Tir Cwmwd

Fe gysylltodd y Cadeirydd hefo Arwel Jones i holi am y llwybr firebreak a'r Cynllun Lliw yn Llŷn yn dilyn y pwyllgor diwethaf ac mae ef wedi ateb yn dweud fod tir comin Foel Gron Mynytho hefo cytundeb section 15/16 rhwng y Cyngor Cymuned a Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei le i dorri'r llwybr firebreak yn rheolaidd ar ôl i'r cynllun Cadw'r Lliw yn Llŷn ddod i ben felly fe gysylltodd y clerc gyda clerc Cyngor Cymuned Llanengan i ofyn am fwy o wybodaeth a cafodd enw cyswllt a cyfeiriad ebost swyddog o CNC sydd yn delio gyda hyn. Mae'r clerc wedi anfon ebost ato yn gofyn am fwy o wybodaeth ac os yw'n bosibl cael cytundeb o'r fath ar Mynydd Tir Cwmwd i dorri'r llwybr firebreak yno yn rheolaidd hefyd felly gobeithio y bydd diweddariad ar y mater erbyn y pwyllgor nesaf.

J A Pozzi – cytundeb 3 mlynedd

Derbyniodd y clerc ebost gan J A Pozzi yn dweud nad oedd yn gallu cario ymlaen gyda'r gwaith o dorri'r fynwent a'r llwybrau ond bod Osian Parry sydd wedi bod yn ei helpu hefo'r gwaith yma yn fodlon cario ymlaen i'w torri os yw'r Cyngor Cymuned yn fodlon. Mae'r clerc wedi ei ffonio i drafod y mater ac wedi cael cadarnhad y bydd Osian Parry yn gorffen y cytundeb 3 mlynedd sydd gan J A Pozzi gyda'r Cyngor Cymuned ar yr un telerau ac os y bydd y Cyngor Cymuned yn derbyn hyn yna fe fydd Osian Parry yn cymeryd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus allan ar gyfer y flwyddyn nesaf sef o 1^{af} o Ebrill 2022. Dywedodd Thomas Victor

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/02/2022 7:00yh – O Bell - COVID-19

Jones bod rhaid cael hyn ar ddu a gwyn gan Osian Parry. Ategodd Alan Harper-Smith ei fod ddim yn iawn i ofyn iddo gario ymlaen ar yr un telerau gan fod prisiau tanwydd wedi mynd i fyny cymaint ac y dylai ail gyflwyno prisiau i'r Cyngor Cymuned ond atebodd y cadeirydd a'r clerc y byddai rhaid ail hysbysebu y tendar os ydynt eisiau gwneud hynny a dim cytundeb newydd yw hwn dim ond Osian Parry yn cymeryd trosodd gan J A Pozzi sydd hefo cytundeb 3 mlynedd wedi ei gytuno ers blwyddyn bellach ac wedi bod yn ei helpu gyda'r gwaith ers blynnyddoedd. Mae Alaw Ceris yn cytuno os ydyw wedi ymrwymo i gytundeb 3 mlynedd mae'n mynd yn erbyn y cytundeb i ddod allan ar ôl blwyddyn ac felly yn gwneud synwyr i gadw at y pris a gytunwyd ar y cychwyn ac mae Greta Hughes yn cytuno.

Penderfyniad: y clerc i gysylltu gyda Osian Parry i gadarnhau ei fod yn hapus i gario ymlaen gyda'r gwaith am y ddwy flynedd sydd yn weddill o'r gytundeb yn seiliedig ar y pris a roddwyd yn wreiddiol a'i fod hefyd am gael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus i gychwyn o'r 1^{af} o Ebrill 2022 ac os nad yw yn cytuno fe fydd rhaid ail hysbysebu'r tendar.

6. Y Fynwent

Mae diweddariad ar y gweithredoedd wedi ei gael yn barod o dan pwynt 3.1.

Y Fynwent Newydd

Mae'r Cadeirydd wedi derbyn ebost heno gan Dŵr Cymru yn dweud nad ydynt yn fodlon gyda'r cais cynllunio i'r fynwent newydd oherwydd lleoliad y beipan ddŵr â'r beipan carthffosiaeth ar y safle. Mae'r Cadeirydd wedi gofyn am gyfarfod safle i drafod y mater yn barod ond mae'r swyddog yma wedi ei leoli yn de Cymru ac felly yn methu cael cyfarfod safle ac o'r herwydd nid oes modd cael datrusiad a symud ymlaen gyda'r cais. Mae'r swyddog wedi anfon copi o'u llythyr ymateb i'r cais gwreiddiol nôl yn 2010 sydd yn sôn am adeilad ond nid oes adeilad yn y cais newydd felly nid yw yn gwneud synwyr. Dywedodd Greta Hughes os mai'r peipiau yw'r broblem 'roedd y peipiau yna yn y cais gwreiddiol yn 2010 ac felly pam y pasiwyd y cais bryd hynny a pam na chodwyd y pryderon hyn amser hynny. Mae'r swyddog wedi gofyn hefyd os ydi'r Cyngor Cymuned eisiau i Dŵr Cymru edrych i fewn i leoliad y peipiau yn iawn ac am ffi i'r Cyngor Cymuned ond does posibil bod lleoliad eu peipiau nhw yn wybyddus iddynt yn barod ac mae'r Cadeirydd am ofyn iddynt am gopi o'r cynllun lleoliad yma ac am siarad hefo'r adran gynllunio i ddatgan pryder nad oes dim modd symud ymlaen gyda'r cais cynllunio oherwydd diffyg cydweithio gyda Dŵr Cymru. Ni fydd y cais cynllunio yn cael ei basio os na fydd pryderon Dŵr Cymru yn cael eu hateb felly fe fydd rhaid cael lleoliad y peipiau yma er mwyn cael mesur faint o le sydd angen ei gadw bob ochor iddynt a gweld faint o le sydd ar ôl i benderfynnu os oes pwynt cario ymlaen gyda'r cais ar y safle yma. Awgrymodd Ian Goronwy Williams bod angen i rhywun o Dŵr Cymru ddod allan i gyfarfod safle ac er bod y swyddog sy'n delio hefo'r cais yn y de mae'n ddyletswydd arnynt yrru rhywun o'r gogledd i ddod i drafod gyda'r Cyngor Cymuned er mwyn symud ymlaen, cytunodd Thomas Victor Jones, William Roger Jones a Alaw Ceris. Mae'r cadeirydd am yrru ebost yfory i ofyn am gyfarfod safle.

Gofynnodd Greta Hughes os oedd pryderon Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael eu hateb a'u bod nhw yn hapus hefo'r cais rwan a cadarnhaodd y Cadeirydd hynny.

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/02/2022 7:00yh – O Bell - COVID-19

7. Cae chwarae

Mae cyfarfod o pwyllgor Cae Chwarae wedi ei drefnu ymhen pythefnos ac felly fe fydd diweddariad mis nesaf.

8. Coronavirus covid-19

- Diweddariad
- Polisi lechyd a Diogelwch

Dim diweddariad a cytuno i gario ymlaen ar zoom tan yr etholiad ym mis Mai. Yn arferol ar ôl etholiad bydd rhaid arwyddo ffurflenni ond efallai y bydd y rheolau wedi newid o gysidro covid-19 felly fe fydd rhaid aros i weld. Mae band eang yn y neuadd erbyn hyn felly mae modd cynnal cyfarfod hybrid/aml-leoliad fel sy'n ofynnol gan Un Llais Cymru ar gyfer pob cyfarfod ar y funud felly os oes rhai yn awyddus i fynd i gyfarfod yn y neuadd a rhai eisiau cyfarfod ar zoom yna mae modd gwneud hynny. Fe fydd rhaid edrych i fewn i'r sianel gyfieithu ar zoom hefyd fel bod modd cael cyfieithydd yn y neuadd petai'r angen felly mae'r clerc am edrych i mewn i hyn.

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf pryd y dywedodd Claire Russell-Griffiths efallai bod ffiniau y wardiau yn newid yn yr etholiad mis Mai fe anfonodd y Cadeirydd ebost at y Rheolwr Etholiadau ac mae wedi cael ymateb ganddo yn dweud nad yw ffiniau Cyngorau Cymuned a Thref yn newid felly ni fydd newid i ffin Cyngor Cymuned Llanbedrog ond mae ffiniau Cyngor Gwynedd yn newid ac felly mae ward Llangian o Gymuned Llanengan yn ymuno hefo Llanbedrog hefo un aelod yn eu cynrychioli.

9. Neuadd y Pentref

Codi prisiau llogi'r neuadd

Nid yw'r Cadeirydd wedi cael y prisiau cyfredol gan Barbara Warren eto felly penderfynwyd ei roi ar agenda mis nesaf.

Taliadau wedi eu cymeradwyo

Cyflog y Clerc – Pat Humphreys	£366.73
Ann Llwyd – Cyfieithydd	£160.00
Arfon Parry – We-letya Blynnyddol a Chynhaliaeth.	£38.00
Zurich Municipal – Yswiriant Cyngor Cymuned Llanbedrog 2022-2023	£598.86
Aelodaeth – Un Llais Cymru	£250.00
Treth Dŵr – Mynwent Llanbedrog 2022-2023	£106.71

Taliadau wedi eu derbyn

Cyngor Gwynedd – Cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus	£570.60
---	----------------

Ceisiadau Cynllunio

Unrhyw gais fydd wedi dod i law erbyn y cyfarfod.

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/02/2022 7:00yh – O Bell - COVID-19

C22/0166/38/LL – Tir ger Glennydd, Lon Pin, Llanbedrog – Cais llawn i adeiladu tŷ fforddiadwy 5 ystafell wely ar safle eithio gwledig gyda modurdy ar wahan a mynedfa gerbydol (ail gyflwyniad)

Penderfyniad: anfon yr un ymateb a anfonwyd i'r cais blaenorol gan mai ail gyflwyniad yw hwn.

Gohebiaeth

1. **Clerks & Council Direct** – Newyddlen
2. **Un Llais Cymru** – Hyfforddiant
3. **CLILC** - 23.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan
4. **Llywodraeth Cymru** - Datganiad ysgrifenedig y Gweinidogion Cam 2 y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth
5. **GIG** - AP Covid-19
6. **Llywodraeth Cymru** - Diweddariad - Cofio 2020
7. **Llywodraeth Cymru** - 30.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC
8. **CLILC** - 02.10.2020 Diweddariad am y coronafeirws
9. **Panel Annibynnol Cymru** - Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnyddiaeth Ariannol – Chwefror 2021
10. **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** - Cylchlythyr Medi 2020
11. **Un Llais Cymru** - Hyfforddiant ar lein - Cymorth Cynllunio Cymru
12. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am clyw
13. **Un Llais Cymru** - rhaglen gweminarau hyfforddiant 2020/21

Cais am gyfraniad

1. **Macmillan Cancer Support** – cais am gyfraniad ariannol
2. **Ambiwlans Awyr Cymru** – cais am gyfraniad ariannol
3. **Marie Curie** – cais am gyfraniad ariannol
4. **Dawns i bawb** – cais am gyfraniad ariannol

Gofynnodd y Cadeirydd os yw'r taliad gan Cyngor Gwynedd am gynnal a chadw'r llwybrau cyhoeddus yn dod i ben yn fuan ond nid yw'r clerc yn ymwybodol o hynny ac felly am wneud ymholiadau.

Cafwyd cais gan Greta Hughes i'r clerc wneud ymholiadau ynglŷn â cael meter dŵr yn y fynwent yn hytrach na talu'r treth flynyddol gan fod y pris wedi cynyddu gymaint ac mae Thomas Victor Jones yn cytuno. Bydd angen cael hyd i'r 'stop tap' felly mae'r clerc am ofyn i Victor Price.

Cafwyd cais gan Alan Harper-Smith i gael mwy o finiau i lawr wrth y traeth cyn yr haf. Mae'r clerc am gysylltu gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i ofyn iddynt ddarparu mwy o finiau yn y maes parcio ac i Cyngor Gwynedd ddarparu mwy o finiau i lawr ger y traeth.

Cafwyd cais gan Thomas Victor Jones i gysylltu hefo Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i gwyno am gyflwr y briffordd sy'n mynd o Glyn y Weddw allan o Lanbedrog i lawr at y garej, mae'r gwyneb yn sâl iawn ac angen ei thrwsio.

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 28/02/2022 7:00yh – O Bell - COVID-19

Cafwyd diweddariad gan y clerc ar apêl Derwen Deg a'i bod wedi anfon llythyr Gareth a Menai Evans i'r Arolygiaeth Gynllunio yn Gaerdydd ond cafodd ymateb yn ôl na fyddent yn derbyn unrhyw sylwadau ychwanegol wrth ystyried yr apêl.

Fe wnaeth y clerc atgoffa bawb bod rhaid mynd drwy'r rhestr ceisiadau am gyfraniad ariannol mis nesaf gan ei bod yn ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Cadeirydd yn cau'r cyfarfod am 8.00 y.h.